



Cynllun Iaith Gymraeg

28 Mai 2009

www.wao.gov.uk



WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Cafodd y Cynllun hwn ei gymeradwyo gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg o dan Adran 14 o Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993. Daeth yn weithredol ar 28 Mai 2009.

Rachel Moss
Pennaeth Cyfathrebu
28 Mai 2009

Cynnwys

Cyflwyniad	4	Wyneb cyhoeddus Swyddfa Archwilio Cymru	9
<i>Y Cynllun</i> <i>Swyddfa Archwilio Cymru</i>		<i>Hunaniaeth a delwedd gorfforaethol</i> <i>Arwyddion a chyfarwyddiadau yn ein swyddfeydd</i> <i>Gwefan</i> <i>Cyhoeddi ac argraffu deunydd ar gyfer y cyhoedd yng Nghymru</i> <i>Ffurflenni a deunydd esboniadol</i> <i>Datganiadau i'r Wasg</i> <i>Hysbysebu a chyhoeddusrwydd</i> <i>Hysbysiadau swyddogol cyhoeddus a hysbysebion am recriwtio</i>	
Nodau ac Amcanion y Cynllun	5		
Cynllunio a darparu gwasanaethau	6		
<i>Polisiâu, deddfwriaeth a mentrau</i> <i>Darparu gwasanaethau</i> <i>Ein swyddogaethau rheoleiddio – a gwasanaethau a wneir ar ein rhan gan drydydd partiön</i> <i>Safonau ansawdd</i>		Gweithredu a monitro'r Cynllun	11
Ymdrin â'r cyhoedd sy'n siarad Cymraeg	7	<i>Staffio</i> <i>Recriwtio</i> <i>Dysgu Cymraeg</i> <i>Hyfforddiant galwedigaethol</i> <i>Trefniadau gweinyddol</i> <i>Gwasanaethau a ddarperir ar ran Swyddfa Archwilio Cymru gan bartiön eraill</i> <i>Monitro</i> <i>Adolygu a diwygio'r Cynllun</i>	
<i>Cyfathrebu'n ysgrifenedig</i> <i>Cyfathrebu dros y ffôn</i> <i>Cyfarfodydd cyhoeddus</i> <i>Archwilio cyrff cyhoeddus</i> <i>Cyfarfodydd eraill â'r cyhoedd yng Nghymru</i> <i>Cysylltiadau eraill â'r cyhoedd yng Nghymru</i>		Prif dargedau ar gyfer gweithredu'r Cynllun	14



Cyflwyniad

Y Cynllun

- 1 Yn y modd y mae'n cynnal busnes cyhoeddus yng Nghymru bydd Swyddfa Archwilio Cymru yn mabwysiadu'r egwyddor o drin y Gymraeg a'r Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal. Mae'r Cynllun yn nodi sut y bydd Swyddfa Archwilio Cymru yn gweithredu'r egwyddor hon wrth ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru.
- 2 Mae'r Cynllun iaith Gymraeg hwn yn ymgorffori llawer o arferion gwaith Swyddfa Archwilio Cymru wrth wasanaethu'r cyhoedd yng Nghymru ac yn ffurfioli ei pholisïau iaith ymhellach fel sy'n ofynnol gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg. Mae'r Cynllun yn cynnwys nifer o fentrau newydd a chynllun gweithredu sy'n nodi sut y byddwn yn gweithredu'n unol â'r Cynllun.

Swyddfa Archwilio Cymru

- 3 Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn gyfrifol am archwilio dros £20 biliwn o wariant cyhoeddus yn flynyddol ar bob lefel weinyddol yng Nghymru, o Fyrddau Iechyd Lleol i Lywodraeth y Cynulliad.

- 4 Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn croesawu cydnabyddiaeth o'r egwyddor o gydraddoldeb rhwng y Gymraeg a'r Saesneg. Wrth gyfathrebu yn Gymraeg â'r cyhoedd yng Nghymru wrth gyflawni ei dyletswyddau, bydd yn gwneud hynny yn unol â'r egwyddor honno fel y nodwyd yn y Cynllun. Dangos parch at y ddwy iaith fu nod y Comisiwn Archwilio a'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol cyn creu Swyddfa Archwilio Cymru ac roedd y ddau yn ystyried yr iaith Gymraeg ac anghenion siaradwyr Cymraeg wrth ddarparu gwasanaethau. Mae'r Cynllun hwn yn uno'r parch hwnnw i greu strategaeth ar gyfer gwasanaethu'r cyhoedd sy'n siarad Cymraeg.
- 5 Caiff Swyddfa Archwilio Cymru ei harwain gan yr Archwilydd Cyffredinol ac mae'n cyflogi tua 293 o staff. Mae'r pencadlys yng Nghaerdydd ond mae swyddfeydd ledled Cymru ac mae llawer o weithwyr maes yn gweithio o gartref neu o swyddfeydd cleientiaid. Nid yw staff Swyddfa Archwilio Cymru yn weision sifil ac maent yn annibynnol ar y llywodraeth. Mae pob aelod o'r staff yn gwneud eu dyletswyddau yn gwbl unol â'r Cod Ymarfer Archwilio ac Arolygu.

- 6 Mae'r Archwilydd Cyffredinol a'i swyddogaethau archwilio ac arolygu, sy'n cwmpasu archwiliadau o ddatganiadau ariannol a gwaith mewn perthynas â pherfformiad gwasanaethau, yn cyfrannu i roi:
 - sicrwydd o ran y datganiadau ariannol blynyddol a bod arian cyhoeddus wedi ei ddefnyddio'n gywir ac i'r dibenion a fwriadwyd;
 - sicrwydd bod cyrff cyhoeddus Cymru yn rhoi gwerth da am arian wrth ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd;
 - adborth i gyrff a gaiff eu harchwilio a'u harolygu i'w helpu i wella gwasanaethau;
 - gwybodaeth i'r rhai hynny sy'n gyfrifol am graffu ar bolisi, i'r rhai hynny sy'n gwneud y polisïau eu hunain, ac i ddefnyddwyr gwasanaethau a threthdalwyr.
- 7 Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn monitro effeithiolrwydd gweithredu'r mesurau o nodwyd yn y Cynllun hwn ac ni fydd yn newid y Cynllun heb gymeradwyaeth Bwrdd yr Iaith Gymraeg.
- 8 Ceir rhagor o wybodaeth am Swyddfa Archwilio Cymru yn: <http://www.wao.gov.uk>
- 9 Ceir manylion cyswllt ar gyfer y Cynllun hwn ar ddiwedd y ddogfen hon.

Nodau ac amcanion y Cynllun

- 10 Wrth ymwneud â'r cyhoedd yng Nghymru, bydd Swyddfa Archwilio Cymru yn trin y Gymraeg a'r Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal, gyda'r ddwy iaith yn cael yr un statws a dilysrwydd.



Cynllunio a darparu gwasanaethau

Polisiâu, deddfwriaeth a mentrau

- 11 Bydd ein polisiâu, ein mentrau a'n gwasanaethau yn gyson â'r Cynllun hwn. Byddant yn cefnogi defnydd o'r iaith Gymraeg a bydd, lle bynnag y bo'n bosibl, yn helpu'r cyhoedd yng Nghymru i ddefnyddio'r Gymraeg yn eu bywydau o ddydd i ddydd.
- 12 Pan fyddwn yn cyfrannu at ddatblygu neu weithredu polisiâu, mentrau, gwasanaethau neu ddeddfwriaeth newydd a arweinir gan sefydliadau eraill, byddwn yn gwneud hyn yn gyson â'r Cynllun hwn.

Darparu gwasanaethau

- 13 Lle bynnag y bo'n bosibl, byddwn yn sicrhau bod ein gwasanaethau ar gael i'r cyhoedd yn Gymraeg.
- 14 Byddwn yn rhoi gwybod i'r cyhoedd pan fydd gwasanaethau ar gael yn Gymraeg.
- 15 Fel rhan o'r Cynllun hwn, bydd Swyddfa Archwilio Cymru yn cynnal arolwg bob tair blynedd o ddewis iaith pob un o'r cyrff a gaiff eu harchwilio a'u harolygu. Bydd canlyniadau'r arolwg yn galluogi Swyddfa Archwilio Cymru i adolygu'r galw am wasanaethau yn Gymraeg a'r targedau a ddylai fod yn berthnasol i'w darpariaeth.

Ein swyddogaethau rheoleiddio – a gwasanaethau a wneir ar ein rhan gan drydydd partion

- 16 Bydd unrhyw gytundebau neu drefniadau a wnawn gyda thrydydd partion yn gyson â rhannau perthnasol y Cynllun hwn, pan fo'r cytundebau neu'r trefniadau hyn yn berthnasol i ddarparu'r gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru.
- 17 Bydd hyn yn cynnwys gwasanaethau a gaiff eu gosod ar gontract, rhoi trwyddedau a mathau eraill o ganiatâd.

Safonau ansawdd

- 18 Bydd gwasanaethau a ddarperir yn Gymraeg a Saesneg o'r un ansawdd a fe'u darperir o fewn yr un amserlen.



Ymdrin â'r cyhoedd sy'n siarad Cymraeg

Cyfathrebu'n ysgrifenedig

Ein harfer fydd:

- 19 Pan fydd rhywun yn ysgrifennu atom yn Gymraeg byddwn yn anfon ateb yn Gymraeg (os bydd angen ateb). Bydd ein hamser targed i ateb yr un fath ag ar gyfer ateb llythyrau a ysgrifennir yn Saesneg.
- 20 Pan fyddwn yn dechrau gohebiaeth ag unigolyn, grŵp neu sefydliad, byddwn yn gwneud hynny yn Gymraeg pan wyddom y byddai'n well ganddynt ohebu yn Gymraeg.
- 21 Pan anfonwn ohebiaeth safonol neu gylchlythyrau i dderbynyddion lluosog yng Nghymru, bydd yn ddwyieithog oni wyddom y byddai'n well gan bob un ei dderbyn yn Gymraeg neu'n Saesneg yn unig.
- 22 Os bydd rhaid cyhoeddi unrhyw ohebiaeth yn Gymraeg ac yn Saesneg ar wahân, ein dull arferol fydd sicrhau bod y ddau fersiwn ar gael ar yr un pryd.
- 23 Bydd unrhyw ddogfennau amgaeedig a anfonir gyda llythyrau dwyieithog yn ddwyieithog, lle bynnag y bont ar gael.
- 24 Bydd unrhyw ddogfennau amgaeedig a anfonir gyda llythyrau Cymraeg yn Gymraeg neu'n ddwyieithog, lle bynnag y bont ar gael.
- 25 Bydd yr uchod yn berthnasol i ohebiaeth e-bost yn ogystal â gohebiaeth ar bapur.
- 26 Caiff pob copi caled o ohebiaeth yn Gymraeg a anfonir gennym ei lofnodi (naill ai â llaw, neu â llofnod electronig ar gyfer postio torfol).

27 Byddwn yn defnyddio system sgorio y cytunwyd arni gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg er mwyn nodi'n wrthrychol unrhyw ohebiaeth safonol neu gylchlythyr nad oes angen ei gyhoeddi yn Gymraeg, nac yn ddwyieithog (er enghraifft, pan fo'r ohebiaeth yn dechnegol neu'n hir iawn).

Cyfathrebu dros y ffôn

- 28 Ein harfer arferol fydd sicrhau bod y cyhoedd yn gallu siarad yn Gymraeg neu'n Saesneg wrth siarad â ni dros y ffôn.
- 20 Bydd staff ein switsfwrdd yn ateb â chyfarchiad dwyieithog.
- 30 Bydd ein prif switsfwrdd yn defnyddio neges ddwyieithog ar ei beiriant ateb.
- 31 Byddwn yn annog gweddill y staff i ateb y ffôn â chyfarchiad dwyieithog ac i ddefnyddio negeseuon dwyieithog ar eu peiriannau ateb personol.
- 32 Os yw'r person sy'n ffonio am siarad Cymraeg, bydd ein switsfwrdd yn ceisio cysylltu'r alwad â rhywun sy'n siarad Cymraeg ac sy'n gymwys i ymdrin â'r ymholiad.
- 33 Os bydd rhywun yn ffonio un o'n llinellau uniongyrchol ac am siarad Cymraeg, ond nid yw'r person sy'n derbyn yr alwad yn gallu gwneud hynny, bydd yn ceisio trosglwyddo'r alwad at gyd-weithiwr sy'n siarad Cymraeg ac sy'n gymwys i ymdrin â'r ymholiad.

34 Os nad oes siaradwr Cymraeg cymwys i ymdrin â'r ymholiad ar gael, bydd y person sy'n ffonio yn cael dewis, fel y bo'n briodol, o gael siaradwr Cymraeg i ffonio'n ôl cyn gynted â phosibl, parhau â'r alwad yn Saesneg, neu gyflwyno ei ymholiad yn Gymraeg, drwy lythyr neu e-bost.

Cyfarfodydd cyhoeddus

- 35 Anaml y bydd Swyddfa Archwilio Cymru ac/neu archwilyr penodedig yn cynnal cyfarfodydd gyda'r cyhoedd. Gallant ddod i gysylltiad â grwpiau buddiant/proffesiynol amrywiol (drwy gynadleddau) neu unigolion mewn cyrff neu wasanaethau a gaiff eu harchwilio (ar gyfer dibenion ymchwil ac ymweliadau safle).
- 36 Fodd bynnag, os cynhelir cyfarfod cyhoeddus, rydym yn darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg ym mhob un o'n cyfarfodydd cyhoeddus oni bai ein bod wedi cadarnhau bod pob un o'r cyfranogwyr yn debygol o ddefnyddio'r un iaith.
- 37 Bydd gwahoddiadau a hysbysebion am gyfarfodydd cyhoeddus yn ddwyieithog a naill ai'n nodi bod cyfleusterau cyfieithu ar gael neu'n gwahodd y cyhoedd i roi gwybod i ni ymlaen llaw ym mha iaith y dymunant siarad.
- 38 Byddwn yn rhoi gwybod i'r rhai hynny sy'n mynychu cyfarfodydd cyhoeddus pan fydd cyfleusterau cyfieithu ar gael – ac yn annog cyfraniadau yn Gymraeg.

- 39** Ein harfer fydd darparu papurau a gwybodaeth arall ar gyfer cyfarfodydd cyhoeddus yn Gymraeg ac yn Saesneg – a chyhoeddi adroddiadau neu bapurau a baratoir yn dilyn cyfarfodydd cyhoeddus yn Gymraeg ac yn Saesneg.
- 40** Wrth ddewis staff i fynychu cyfarfodydd cyhoeddus, ein harfer fydd sicrhau bod siaradwyr Cymraeg â'r cymwysterau priodol yn mynychu, fel y bo angen.

Archwilio cyrff cyhoeddus

- 41** Lle bynnag y bo'n bosibl, byddwn yn cynnwys siaradwr Cymraeg fel aelod allweddol o'r tîm archwilio ar aseiniadau lle caiff y cofnodion sy'n cael eu harchwilio eu cynnal yn bennaf drwy gyfrwng y Gymraeg. Efallai y bydd siaradwyr Cymraeg y timau hyn yn aelodau parhaol o staff Swyddfa Archwilio Cymru neu'n bobl sy'n gweithio ar gontract i Swyddfa Archwilio Cymru.
- 42** Caiff aelodau o'r cyhoedd sy'n rhoi gwybodaeth berthnasol i archwiliad (o dan Adran 18 (4) o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004) gyfle i gyfathrebu â Swyddfa Archwilio Cymru yn eu dewis iaith.
- 43** Mae gan etholwyr lleol yr hawl cyfreithiol i ofyn cwestiynau i'r archwilydd ynglŷn â chyfrifon eu hawdurdod lleol neu i wrthwynebu'r cyfrifon hynny o dan adrannau 29 a 30 o Ddeddf Archwiliad Cyhoeddus (Cymru) 2004. Mae awdurdod yn hysbysebu'r hawliau hyn bob blwyddyn, gan hysbysu etholwyr o derbynau amser y cyfnod pryd y gallant arfer yr hawliau.

- 44** Wrth arfer eu hawliau, mae croeso i etholwyr yng Nghymru ysgrifennu at eu harchwilydd lleol yn Gymraeg neu yn Saesneg. Caiff cwestiynau a gyflwynir yn ysgrifenedig yn Gymraeg eu hateb yn ysgrifenedig yn Gymraeg. Pan fo etholwr yn gofyn am gyfarfod ffurfiol, ar gyfer gwneud gwrthwynebiad, byddwn yn cynnig cyfle, lle bynnag y bo'n bosibl, i gyfathrebu â'r archwilydd yn ei ddewis iaith.

Cyfarfodydd eraill â'r cyhoedd yng Nghymru

- 45** Pan fyddwn yn trefnu neu'n mynychu cyfarfodydd wyneb yn wyneb â'r cyhoedd, byddwn yn cadarnhau eu dewis iaith mor gynnar â phosibl a, lle bynnag y bo'n bosibl, yn sicrhau bod siaradwr Cymraeg â'r cymwysterau priodol yn delio â'r rhai hynny sy'n dewis yr iaith Gymraeg.
- 46** Os nad oes siaradwr Cymraeg â'r cymwysterau priodol ar gael, byddwn yn cynnig y dewis o barhau â'r cyfarfod yn Saesneg, neu drin y pwnc drwy ohebu yn Gymraeg.
- 47** Bydd yr uchod hefyd yn berthnasol i gyfarfodydd a gynhelir drwy ddefnyddio fideogynadledda ac offer tebyg.

Cysylltiadau eraill â'r cyhoedd yng Nghymru

- 48** Pan gynhaliwn arolygon cyhoeddus, byddwn yn sicrhau bod pob agwedd ar gyfathrebu â'r cyhoedd yn ddwyieithog.
- 49** Gofynnir i ymatebwyr a ydynt yn dymuno ymateb i'r arolwg yn Gymraeg neu yn Saesneg.

- 50** Pan drefnwn seminarau, cyrsiau hyfforddiant neu ddiwyddiadau tebyg i'r cyhoedd, byddwn yn asesu'r angen i'w cynnig yn Gymraeg.
- 51** Ein harfer fydd sicrhau y gwneir cyhoeddiadau dros y system sain yn Gymraeg ac yn Saesneg
- 52** Bydd unrhyw arddangosfeydd clyweled neu gyfryngau rhyngweithiol a baratown yn ddwyieithog. Pan na fo hyn yn bosibl, byddwn yn darparu trawsgrifiad ysgrifenedig dwyieithog.

Wyneb cyhoeddus Swyddfa Archwilio Cymru

Hunaniaeth a delwedd gorfforaethol

53 Bydd Swyddfa Archwilio Cymru yn mabwysiadu delwedd gyhoeddus a hunaniaeth gorfforaethol hollol ddwyieithog fel y caiff ei adlewyrchu yn yr enw, cyfeiriad, logo a slogan corfforaethol a'r wybodaeth feithiol safonol ar ddeunydd ysgrifennu (ee, penawdau llythyrau, papurau ffacs, cardiau busnes), bathodynau adnabod a chyhoeddiadau a fwriedir ar gyfer y cyhoedd yng Nghymru'n gyffredinol. Caiff deunydd ysgrifennu dwyieithog ei ddefnyddio ar gyfer pob gohebiaeth yng Nghymru.

Arwyddion a chyfarwyddiadau yn ein swyddfeydd

54 Mae Swyddfa Archwilio Cymru wedi ymrwymo i ddarparu arwyddion gwybodaeth dwyieithog o fewn ei heiddio ei hun, gan gynnwys cynlluniau arwyddion mewnol ac allanol.

55 Lle bynnag y bo arwyddion dwyieithog neu arwyddion Cymraeg a Saesneg ar wahân, byddant yn gyfartal o ran fformat, maint, ansawdd, eglurdeb ac amlygrwydd. Bydd Swyddfa Archwilio Cymru yn annog cyrff a archwilir ac sy'n darparu cyfleusterau swyddfa ar gyfer staff archwilio, i ddarparu arwyddion dwyieithog sy'n cydymffurfio â'r Cynllun hwn.

56 Bydd yr uchod yn berthnasol i bob math o arwyddion, gan gynnwys arwyddion electronig.

Gwefan

57 Bydd gwefan Swyddfa Archwilio Cymru, www.wao.gov.uk, yn hollol ddwyieithog. Bydd y dudalen gyntaf yn rhoi dewis iaith i'r ymwelydd ar eu hymweliad cyntaf â'r wefan. Yn dilyn hyn bydd cwci'n cofio eu dewis iaith. Mae croeso i ymwelwyr i'r safle bostio negeseuon yn Gymraeg yn gofyn am ragor o wybodaeth ac i anfon e-byst Cymraeg i Swyddfa Archwilio Cymru.

58 Pan fyddwn yn cyhoeddi cyhoeddiadau yn Saesneg ar ein gwefannau, caiff y fersiynau yn Gymraeg eu cyhoeddi hefyd, os ydynt ar gael.

Cyhoeddi ac argraffu deunydd ar gyfer y cyhoedd yng Nghymru

59 Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn ymrwymedig i ddarparu deunydd argraffedig wedi ei anelu at y cyhoedd yng Nghymru yn Gymraeg ac yn Saesneg.

60 Bydd deunydd argraffedig ar gyfer cyrff sydd o natur dechnegol yn parhau i fod yn Saesneg yn unig – ag eithrio lle mae adroddiad penodol o ddiddordeb arbennig i'r cyhoedd yng Nghymru yn unig.

61 Bydd rhaid i gyhoeddiadau a anelir at y cyhoedd yng Nghymru ac a gynhrychir gan yr Archwilydd Cyffredinol, ei harchwilwyr penodedig neu Swyddfa Archwilio Cymru gydymffurfio â'r polisi. Mae hyn yn berthnasol i gwmnïau preifat pan fyddant yn gweithredu swyddogaethau'r archwilydd penodedig o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

62 Pan fo Swyddfa Archwilio Cymru yn cynhyrchu fersiwn dwyieithog o ddogfen, a brisiwyd ni fydd y pris hwnnw'n uwch na fersiwn uniaith o'r ddogfen honno. Pan gynhrychir fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân o ddogfen, bydd y pris yr un fath.

63 Byddwn yn defnyddio system sgorio i gytuno arni â Bwrdd yr Iaith Gymraeg, er mwyn nodi'n wrthrychol pryd y dylid cyhoeddi deunydd yn Gymraeg a Saesneg ar wahân neu'n ddwyieithog.

64 Cyflwynir adroddiadau i gyrff unigol, yn unol â dewis iaith y corff hwnnw a archwilir, er nad ydynt wedi eu bwriadu'n benodol ar gyfer y cyhoedd.

Ffurflenni a deunydd esboniadol

65 Ein harfer fydd sicrhau bod pob ffurflen a deunydd esboniadol arall at ddefnydd y cyhoedd yng Nghymru yn hollol ddwyieithog, a bod fersiynau Cymraeg a Saesneg ynghyd mewn un ddogfen. Bydd hyn yn cynnwys ffurflenni rhyngweithiol a gyhoeddir ar ein gwefan.

66 Os oes rhaid cyhoeddi fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân (er enghraifft, lle bo dogfen unigol yn rhy hir neu'n rhy swmpus), bydd y ddau fersiwn yn gyfartal o ran maint ac ansawdd - a byddwn yn sicrhau bod y ddau fersiwn ar gael ar yr un pryd ac yr un mor hygyrch. Bydd y ddau fersiwn yn nodi'n glir fod y deunydd hefyd ar gael yn yr iaith arall.

67 Byddwn yn defnyddio system sgorio, y cytunwyd arni â Bwrdd yr Iaith Gymraeg, er mwyn nodi'n wrthrychol pryd y dylid cyhoeddi deunydd yn Gymraeg ac yn Saesneg ar wahân neu'n ddwyieithog.

Datganiadau i'r Wasg

68 Caiff datganiadau i'r wasg a'r cyfryngau darlledu yng Nghymru eu cyhoeddi yn Gymraeg ac yn Saesneg lle bo terfynau amser yn caniatáu – neu'n unol â dewis iaith sefydliad y cyfryngau sy'n eu derbyn neu'r cyhoeddiad.

69 Lle y bo'n bosibl, byddwn yn sicrhau bod siaradwyr Cymraeg ar gael i gynnal cyfweiliadau â'r wasg a chyfryngau darlledu cyfrwng Cymraeg.

Hysbysebu a chyhoeddusrwydd

70 Caiff yr holl ddeunydd cyhoeddusrwydd, gwybodaeth i'r cyhoedd, deunydd arddangos a hysbysebu a ddefnyddiwn yng Nghymru eu cynhyrchu'n ddwyieithog, neu yn fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân. Os oes rhaid cyhoeddi'r fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân, bydd y ddau fersiwn yn gyfartal o ran maint, amlygrwydd ac ansawdd – a bydd y ddau fersiwn ar gael ar yr un pryd ac yr un mor hygyrch.

71 Bydd unrhyw hysbysebion a osodir mewn papurau newydd cyfrwng Saesneg (neu ddeunydd tebyg) a ddsberthir yn bennaf neu'n gyfan gwbl yng Nghymru, yn ddwyieithog, neu bydd fersiynau Cymraeg a Saesneg yn ymddangos ar wahân (â'r ddau fersiwn yn ymddangos yr un pryd, ac yn gyfartal o ran maint, amlygrwydd ac ansawdd).

72 Mewn cyhoeddiadau cyfrwng Gymraeg, bydd hysbysebion yn y Gymraeg yn unig.

73 Caiff hysbysebu ar y teledu, yn y sinema ac ar y radio eu cynnal yn y Gymraeg a'r Saesneg. Bydd ymgyrchoedd teledu sy'n ymddangos ar S4C yn ystod oriau rhaglennu Cymraeg yn y Gymraeg. Bydd ymgyrchoedd radio a ddarlledir yn ystod rhaglenni Cymraeg ar orsafoedd radio masnachol yn y Gymraeg.

74 Ein harfer fydd osgoi defnyddio isdeitlau Cymraeg, neu dybio hysbysebion i'r Gymraeg.

75 Bydd llinellau ymateb dros y ffôn a dulliau eraill o ymateb i ymgyrchoedd yng Nghymru yn ddwyieithog neu bydd ganddynt wasanaeth ymateb Cymraeg ar wahân.

Hysbysiadau swyddogol cyhoeddus a hysbysebion am recriwtio

76 Bydd hysbysiadau swyddogol, hysbysiadau cyhoeddus a hysbysiadau am recriwtio staff a osodir mewn papurau newydd cyfrwng Saesneg (neu gyfrwng tebyg) a ddsberthir yn bennaf neu'n gyfan gwbl yng Nghymru, yn ddwyieithog, neu bydd fersiynau Cymraeg a Saesneg yn ymddangos ar wahân. Bydd hysbysiadau yn Gymraeg mewn cyhoeddiadau cyfrwng Gymraeg.

77 Bydd y fersiynau Cymraeg a Saesneg yn gyfartal o ran fformat, maint, ansawdd ac amlygrwydd – os caiff fersiwn dwyieithog unigol, neu hysbysiadau Cymraeg a Saesneg ar wahân eu cynhyrchu.

78 Yn y cyfryngau cyfrwng Saesneg, caiff swyddi lle mae'r gallu i siarad Cymraeg yn hanfodol eu hysbysebu yn Gymraeg, â disgrifiad byr yn Saesneg.

79 Caiff hysbysiadau am recriwtio a osodir mewn cylchgronau cyfrwng Saesneg (neu gyhoeddiadau eraill) sy'n cael eu dosbarthu ledled y DU eu gosod yn Saesneg, oni bai fod y gallu i siarad Cymraeg yn hanfodol yn y swydd. Os felly caiff yr hysbysiad ei gyhoeddi'n hollol ddwyieithog, neu yn Gymraeg ag esboniad byr yn Saesneg.

80 Bydd unrhyw hysbysiadau swyddogol, hysbysiadau cyhoeddus neu hysbysiadau am recriwtio staff a osodir mewn manau eraill o Gymru yn ddwyieithog.

Gweithredu a monitro'r Cynllun

Staffio

- 81** Bydd Swyddfa Archwilio Cymru yn mabwysiadu Strategaeth Sgiliau Ieithyddol i wella ei gallu i ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru. Bydd y mesurau canlynol yn rhan ohoni.
- 82** Bydd Swyddfa Archwilio Cymru yn cadw gwybodaeth am ddeiliaid swyddi sy'n siarad Cymraeg. Nid yw nifer y bobl sy'n siarad Cymraeg na'u dosbarthiad yn galluogi Swyddfa Archwilio Cymru i ddarparu gwasanaeth dwyieithog llawn. Fodd bynnag, bwriad y mesurau a nodir isod yw cynyddu gallu Swyddfa Archwilio Cymru i gyrraedd y nod hwnnw dros y blynyddoedd nesaf gyda chefnogaeth ei staff.
- 83** Bydd Swyddfa Archwilio Cymru yn archwilio ei gwasanaethau a'u perthynas â'r cyhoedd er mwyn nodi'r gweithleoedd, y timau a'r swyddi hynny lle mae'r gallu i siarad Cymraeg yn hanfodol neu'n ddymunol a bydd yn llunio disgrifiadau swyddi yn unol â hyn. Gellir diffinio'r gofynion hyn fel elfen o'r gweithle neu dîm yn hytrach na bod yng nghlwm wrth swydd arbennig. Rhaid pwysleisio na fydd y polisiau iaith yn y Cynllun hwn yn effeithio'n andwyol ar gyflogaeth unrhyw ddeiliad swydd nad yw'n gallu siarad Cymraeg. Bydd Swyddfa Archwilio Cymru'n sefydlu meini prawf ar gyfer bodloni gofynion iaith y Cynllun, a fydd yn cynnwys manylion am natur y swydd ac amlder y cyswllt â'r cyhoedd sy'n siarad Cymraeg.

84 Bydd Swyddfa Archwilio Cymru yn sicrhau bod y rheolwyr hynny, ac eraill, sy'n gyfrifol am recriwtio, hyfforddi a goruchwyllo staff yn gweithredu'r mesurau a nodir uchod.

85 O bryd i'w gilydd, bydd Swyddfa Archwilio Cymru yn cynnal archwiliad iaith i gadarnhau pa aelodau o staff sy'n gallu siarad, darllen ac ysgrifennu Cymraeg a'u nifer, gallu ieithyddol a'u lleoliad (gan gynnwys staff sy'n dysgu Cymraeg). Lle y nodir bod prinder staff dwyieithog mewn gweithleoedd, caiff strategaeth ei gweithredu er mwyn unioni'r sefyllfa.

Recriwtio

86 Caiff gallu ieithyddol ei ystyried yn un o nifer o sgiliau perthnasol wrth benodi staff. Pan gaiff gallu ieithyddol yn y Gymraeg ei ystyried yn hanfodol neu'n ddymunol, nodir hyn yn yr hysbysebion swyddi perthnasol. Mewn amgylchiadau lle mae'n anodd penodi staff dwyieithog cymwys i swyddi lle caiff y gallu i siarad Cymraeg ei ystyried yn hanfodol, byddwn yn ad-drefnu'r modd y darparwn wasanaethau dros dro er mwyn ymdrin â'r bwlch yn ein darpariaeth cyfrwng Gymraeg.

Dysgu Cymraeg

87 Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn gwbl ymrwymedig i annog a chefnogi'r aelodau hynny o staff sydd am ddysgu Cymraeg neu wella eu sgiliau Cymraeg. Rhoddir blaenoriaeth i'r staff yn y meysydd darparu gwasanaeth hynny lle mae cyswllt rheolaidd â'r cyhoedd sy'n siarad Cymraeg neu lle y nodwyd bod prinder staff dwyieithog. Caiff archwilwyr sy'n siarad Cymraeg eu hannog i wella eu sgiliau Cymraeg mewn perthynas â'u galwedigaeth a'u swyddogaeth.

Hyfforddiant galwedigaethol

88 Byddwn yn datblygu gallu staff sy'n siarad Cymraeg i weithredu yn Gymraeg drwy ddarparu hyfforddiant galwedigaethol yn Gymraeg, lle bynnag y bo'n ymarferol.

Trefniadau gweinyddol

89 Mae gan fesurau'r Cynllun hwn awdurdod, cefnogaeth a chymeradwyaeth lawn ein sefydliad.

90 Gan reolwyr bydd y cyfrifoldeb o weithredu'r agweddau hynny ar y Cynllun sy'n berthnasol i'w gwaith.

91 Byddwn yn penodi uwch aelod o staff i gydgyssylltu'r gwaith fydd ei angen i weithredu, monitro ac adolygu'r Cynllun hwn.

- 92** Byddwn yn diweddarau cynllun gweithredu manwl yn barhaus, gan nodi sut y sicrhawn ein bod yn gweithredu yn unol â'r Cynllun hwn. Daw'r Cynllun gweithredu'n weithredol ar y dyddiad y daw'r Cynllun yn weithredol. Bydd y Cynllun yn cynnwys targedau, terfynau amser ac adroddiad ar gynnydd pob un o'r targedau hynny.
- 93** Caiff y Cynllun ei gyhoeddi i'n staff, ac i'r cyhoedd yng Nghymru. Caiff ei gyhoeddi mewn man amlwg ar ein gwefan.
- 94** Byddwn yn llunio cyfarwyddiadau desg, neu ganllaw debyg, i'n staff er mwyn sicrhau eu bod yn gwybod sut i weithredu mesurau'r Cynllun hwn.
- 95** Caiff cyfarwyddiadau desg, neu ganllaw debyg a ddefnyddir gan ein staff, eu haddasu i adlewyrchu mesurau'r Cynllun hwn.
- 96** Byddwn yn trefnu sesiynau briffio a hyfforddiant i'n staff er mwyn cynyddu ymwybyddiaeth o'r Cynllun hwn – ac i esbonio sut y bydd yn effeithio ar eu gwaith beunyddiol.
- 97** Byddwn yn sicrhau y defnyddiwn gyfieithwyr neu ddehonglwyr cymwys yn unig i helpu i weithredu'r Cynllun hwn.
- 98** Caiff unrhyw fath o gyswllt â'r cyhoedd yng Nghymru, nad ymdrinnir yn benodol ag ef yn y Cynllun hwn, ei gynnal mewn ffordd sy'n gyson ag egwyddorion cyffredinol y Cynllun hwn.

Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebus

- 99** Caiff yr angen i gyfleu gwybodaeth a darparu gwasanaethau yn Gymraeg, a gweithredu yn unol â'r Cynllun hwn, ei ddiwallu wrth i ni ddatblygu, cynllunio a phrynu cynhyrchion a gwasanaethau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu.
- 100** Lle bynnag y bo'n bosibl, byddwn yn addasu ein systemau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu presennol i sicrhau eu bod yn ein galluogi i gynnig gwybodaeth a darparu gwasanaethau yn Gymraeg – ac i weithredu yn unol â'r Cynllun hwn.

Gwasanaethau a ddarperir ar ran Swyddfa Archwilio Cymru gan bartion eraill

- 101** Wrth wneud trefniadau newydd bydd Swyddfa Archwilio Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i unrhyw gyrff, sefydliadau, cwmnïau neu bartion eraill sy'n cynnal gwasanaethau ar ei rhan ar gyfer y cyhoedd yng Nghymru gydymffurfio â darpariaethau priodol y Cynllun hwn. Bydd Swyddfa Archwilio Cymru yn sicrhau y bydd y contractwyr neu'r asiantau y maent yn delio â hwy ac sy'n darparu gwasanaethau i'r cyhoedd neu'n cyfathrebu â'r cyhoedd yng Nghymru yn gweithredu unrhyw elfen berthnasol o'r Cynllun hwn a holl elfennau perthnasol y Cynllun hwn ar ei rhan wrth ymdrin â'r cyhoedd yng Nghymru. Bydd rhaid i'r contractwyr a'r trydydd partion hyn gydweithredu â Swyddfa Archwilio Cymru i fonitro'r Cynllun yn effeithiol a disgwylir adroddiadau ar berfformiad yn rheolaidd ganddynt fel rhan o'r trefniadau monitro safonol.

- 102** Bydd Swyddfa Archwilio Cymru yn llunio canllawiau ar gydymffurfio â'r Cynllun i'r aelodau hynny o staff sy'n ymdrin â thrydydd partion, asiantau a chontractwyr sy'n darparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru ar ran Swyddfa Archwilio Cymru. Bydd yr aelodau hyn o staff yn arsylwi ac yn gweithredu yn unol â'r canllawiau hyn.
- 103** Bydd dogfennau a chontractau tendro sy'n berthnasol i drydydd partion, asiantau a chontractwyr sy'n darparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru ar ran Swyddfa Archwilio Cymru yn nodi gofynion defnydd yr iaith Gymraeg yn unol â'r Cynllun hwn.

Monitro

- 104** Byddwn yn monitro ein cynnydd wrth weithredu'r Cynllun hwn yn erbyn y targedau a nodwyd yn y cynllun gweithredu sy'n mynd gydag ef.
- 105** Bydd ein gweithdrefnau monitro a chyflwyno adroddiadau presennol yn cyfeirio at ein cynnydd wrth weithredu'r Cynllun hwn, fel y bo'n briodol.
- 106** Byddwn yn anfon adroddiadau monitro at Fwrdd yr Iaith Gymraeg, pan fyddant yn gofyn amdanynt, gan amlinellu cynnydd wrth roi'r Cynllun hwn ar waith.

Adolygu a diwygio'r Cynllun

- 107** Byddwn yn adolygu'r Cynllun o fewn pedair blynedd iddo ddod i rym
- 108** O bryd i'w gilydd, hefyd, efallai y bydd yn rhaid i ni adolygu'r Cynllun hwn, neu gynnig newidiadau iddo, oherwydd newidiadau i'n swyddogaethau, neu i'r amgylchiadau lle yr ydym yn cyflawni'r swyddogaethau hynny, neu am unrhyw reswm arall.
- 109** Ni wneir unrhyw newidiadau i'r Cynllun hwn heb gymeradwyaeth Bwrdd yr Iaith Gymraeg.

Cwynion ac awgrymiadau ar gyfer gwella

- 110** Dylid anfon cwynion yn ymwneud â'r Cynllun hwn, neu awgrymiadau ar gyfer ei wella, at yr uwch aelod o staff sy'n gyfrifol am y Cynllun, yn y cyfeiriad canlynol:

Pennaeth Cyfathrebu
Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd
CF11 9LJ

Ffôn: 02920 320518

Neu drwy anfon e-bost i: info@wao.gov.uk



Prif dargedau ar gyfer gweithredu'r Cynllun

Targed	Dyddiad cwblhau
Ymwybyddiaeth staff Rhoi cyhoedduswydd am y Cynllun i'n staff a'i roi mewn man amlwg ar ein mewnrwyd	Mehefin 2009
Canllawiau i staff Darparu/golygu cyfarwyddiadau desg presennol i staff gan roi gwybodaeth am y Cynllun a'r goblygiadau i'w gwaith.	Mehefin 2009/parhaus
Cyhoedduswydd am y Cynllun Cyfeirio at y Cynllun ar ein gwefan ac mewn unrhyw ddeunydd cyhoedduswydd perthnasol.	Mehefin 2009
Contractau Sicrhau bod ein contractau safonol a'n templedi contractau yn cael eu diwygio er mwyn cyfeirio at y Cynllun Iaith Gymraeg	Diwedd mis Rhagfyr 2009
Strategaeth Sgiliau leithyddol Llunio a mabwysiadu Strategaeth Sgiliau leithyddol i wella ein gallu i ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru.	Diwedd mis Mawrth 2010
Cynyddu nifer yr archwilwyr â sgiliau iaith Gymraeg Drwy weithredu mesurau recriwtio a hyfforddi dros gyfnod o amser byddwn yn cynyddu ein cronfa o archwilwyr sy'n siarad Cymraeg i'n galluogi i ymwneud yn effeithiol â phob sefydliad sy'n cadw cofnodion cyfrwng Gymraeg erbyn diwedd cyfnod y Cynllun hwn.	Parhaus